Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EF

Enw'r llys

Rhif yr hawliad

Enw'r hawlydd (gan gynnwys unrhyw gyfeirnod)

Enw'r diffynnydd (gan gynnwys unrhyw gyfeirnod)

N9B

# Amddiffyniad a Gwrth-hawliad (swm penodol)

Llenwch y ffurflen hon os ydych yn dymuno gwrthwynebu'r hawliad cyfan neu ran o'r hawliad a/neu wneud hawliad yn erbyn yr hawlydd (gwrth-hawliad).

Nifer cyfyngedig o ddyddiau sydd gennych i lenwi a dychwelyd y ffurflen hon i'r llys.

Cyn llenwi'r ffurflen hon, darllenwch y nodiadau canllaw sydd ynghlwm wrth y ffurflen hawlio.

Sicrhewch fod yr holl flychau ar ochr dde uchaf y ffurflen hon wedi'u llenwi. Bydd yr enwau cywir a'r rhif ar y ffurflen hawlio. Ni all y llys ddod o hyd i'ch achos heb yr wybodaeth hon.

## Sut i lenwi'r ffurflen hon

- Llenwch Adrannau 1 a 2. Ticiwch y blychau cywir a rhowch y manylion eraill y gofynnir amdanynt.
- Rhowch eich amddiffyniad yn Adran 3. Os bydd angen, defnyddiwch ddalen arall o bapur i barhau gan sicrhau bod rhif yr hawliad wedi'i nodi arni'n glir. Yn eich amddiffyniad mae'n rhaid i chi ddatgan pa honiadau ym manylion yr hawliad rydych yn eu gwadu a'ch rhesymau dros wneud hynny. **Os byddwch yn methu â gwadu honiad efallai y cymerir eich bod yn ei addef.**
- Os ydych yn gwrthwynebu'r hawliad am arian yn gyfan gwbl, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod eisoes wedi talu'r hyn sy'n ddyledus gennych, neu nad oes arnoch unrhyw ran o swm yr hawliad.
- Os ydych yn gwrthwynebu rhan o'r hawliad mae'n rhaid i chi:

  – nodi pa ran rydych yn ei addef a pha ran rydych yn ei wadu a

  – rhoi eich fersiwn chi o beth ddigwyddodd os yw'n wahanol i fersiwn yr hawlydd.
- Yn y naill achos neu'r llall, os yw'r hawlydd yn anghytuno â'ch eglurhad, bydd angen i chi fynychu sesiwn gyfryngu. Bydd y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain, sy'n rhan o GLlTEF yn trefnu hwn i chi. Bydd y cyfryngwr yn ceisio eich helpu i ddod i gytundeb cyn i'r achos fynd i wrandawiad.
- Os ydych yn dymuno gwneud hawliad yn erbyn yr hawlydd (gwrth-hawliad) llenwch Adran 4.
- Llenwch a llofnodwch Adran 5 cyn anfon y ffurflen hon i'r llys. Cadwch gopi o'r ffurflen hawlio a'r ffurflen hon.


©Hawlfraint y Goron 2024

Rhif yr hawliad

## 1. Gwrthwynebu'r hawliad

**1.1** Faint o'r hawliad ydych chi'n gwrthwynebu?

☐ **Rwy'n gwrthwynebu'r cyfan o'r swm** a hawlir fel y dangosir ar y ffurflen hawlio.

**neu**

☐ **Rwy'n addef y swm o**

Os ydych yn **gwrthwynebu rhan o'r hawliad yn unig** mae'n rhaid i chi naill ai:

- dalu'r swm a addefir i'r unigolyn a enwir yn y cyfeiriad ar gyfer talu ar y ffurflen hawlio (gweler Sut i Dalu yn y nodiadau sydd ar gefn y ffurflen hawlio, neu sydd wedi'u hatodi iddi). Yna anfonwch yr amddiffyniad hwn i'r llys

  **neu**

- llenwch y ffurflen addefiad a'r ffurflen amddiffyniad hon a'u hanfon i'r llys

☐ Talais y swm a addefir ar

Diwrnod Mis Blwyddyn

**neu**

☐ Mae'r ffurflen addefiad wedi'i llenwi yn atodedig. **Ewch ymlaen i Adran 2.**

## 2. Hawliad wedi'i dalu'n barod

**2.1** Ydych chi'n gwrthwynebu'r hawliad hwn oherwydd eich bod wedi'i dalu'n barod? Ticiwch pa bynnag opsiwn sy'n berthnasol

☐ Nac ydw. **Ewch i Adran 3**

☐ Ydw. Talais yr hawlydd

£

ar (cyn i'r ffurflen hawlio gael ei chyhoeddi)

Diwrnod Mis Blwyddyn

Rhowch fanylion sut y gwnaethoch dalu ac i bwy yn y blwch isod. **Yna ewch i Adran 5.**

Rhif yr hawliad

## 3. Amddiffyniad

**3.1** Yr amddiffyniad (Os ydych angen parhau ar ddalen ar wahân, rhowch rif yr hawliad yng nghornel dde uchaf y ddalen.)

## 4. Gwrth-hawliad

**4.1** Os ydych yn dymuno gwneud hawliad yn erbyn yr hawlydd (gwrth-hawliad)

- I ddechrau gwrth-hawliad, bydd rhaid i chi dalu ffi. Gall staff y llys ddweud wrthych faint y mae'n rhaid i chi ei dalu.
- Efallai na fyddwch yn gallu gwneud gwrth-hawliad lle mae'r hawlydd yw'r Goron, megis Adran o'r Llywodraeth. Gofynnwch am ragor o wybodaeth yn eich swyddfa llys sirol lleol.

**4.1** Os ydych yn hawlio swm penodol o arian, faint ydych yn ei hawlio?

**£**

**4.2** Rwy'n amgáu ffi'r gwrth-hawliad o

**£**

**4.3** Mae fy hawliad am (nodwch natur yr hawliad)

Rhif yr hawliad

**4.4** Beth yw eich rhesymau dros wneud y gwrth-hawliad?

Os ydych angen parhau ar ddalen ar wahân, rhowch rif yr hawliad yng nghornel dde uchaf y ddalen.

Rhif yr hawliad

## 5. Datganiad gwirionedd

**Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw unigolyn sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.**

☐ **Rwy'n credu** bod y ffeithiau a nodir yn yr adran hon, ac ar unrhyw ddalennau parhau, yn wir.

☐ **Mae'r diffynnydd** yn credu fod y ffeithiau a nodir yn yr adran hon, ac unrhyw ddalennau parhau, yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan y diffynnydd i lofnodi'r datganiad hwn.

**Llofnod**

☐ Y Diffynnydd

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol y diffynnydd (fel y'i diffinnir gan CPR 2.3(1))

**Dyddiad**

Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw llawn

Enw cwmni'r cynrychiolydd cyfreithiol

Os ydych yn llofnodi ar ran cwmni, nodwch y swydd a ddelir

Rhif yr hawliad

Cyfeiriad y diffynnydd neu gyfeiriad cynrychiolydd cyfreithiol y diffynnydd y dylid anfon dogfennau iddo.

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

Os yw'n berthnasol

Rhif ffôn

Rhif DX

Eich cyfeirnod

E-bost

Darllenwch fwy am sut mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF yn defnyddio'r wybodaeth bersonol yr ydych yn ei rhoi iddynt wrth lenwi ffurflen: https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter.cy